Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Glercod Cynghorau Cymuned a Thref
Cyfarwyddwyr Cyllid
Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol

Tachwedd 2019

Annwyl Gyfaill,

**Swm Priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972**
**Gwariant Adran 137 y Terfyn ar Gyfer 2020-21**

Dyma roi gwybod i chi mai £8.32 yw'r swm priodol ar gyfer 2020-21 at ddibenion adran 137(4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (Deddf 1972) ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru.

Mae Adran 137(1) o Deddf 1972 yn caniatáu i Gyngor Cymuned neu Tref wario ar weithgarwch nad oes ganddo bwerau penodol yn ei gylch, os yw'r Cyngor yn ystyried y bydd y gwariant o fudd uniongyrchol i'r ardal, unrhyw ran ohoni, rhai o'r trigolion neu'r holl drigolion, cyn belled â bod y gost yn gyson â'r budd. Mae Adran 137(3) o'r Ddeddf hefyd yn caniatáu i Gynghorau Cymuned a Thref wario at ddibenion elusennol ac eraill penodol ac, yn y ddau achos, yr uchafswm y gellid ei wario o dan adran 137(1) ac (3) ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 fydd £8.32 am bob etholwr.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, cyfrifir y swm priodol at ddibenion adran 137(4) drwy ddefnyddio'r fformiwla (A x B) / C fel a nodir yn Atodlen 12B o Ddeddf 1972.

Cynyddodd y mynegai prisiau manwerthu 2.4% rhwng mis Medi 2018 a mis Medi 2019. Mae hyn yn golygu, drwy ddefnyddio'r fformiwla uchod, y bydd yr uchafswm ar gyfer 2020-21 sef o £8.12 i £8.32 am bob etholwr.

Yn gywir

Judith Cole
Yr Is- adran Cyllid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau Gweithlu

Welsh Government / Llywodraeth Cymru
Cathays Park / Parc Cathays,
Cardiff / Caerdydd. CF10 3NQ